BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
**GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES**
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Y Diweddaraf am yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf hon yn disgrifio beth sydd wedi newid ers i'r Adroddiad cyntaf ar Sefydlogrwydd y Farchnad gael ei gyhoeddi yn Nhachwedd 2022. Roedd yr adroddiad cyntaf yn nodi argaeledd gofal a chefnogaeth ar draws y rhanbarth, yn asesu i ba raddau mae'r ddarpariaeth gyfredol yn bodloni anghenion pobl ac yn argymell ffyrdd o wneud yn siŵr fod digon o gefnogaeth ar gael yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf wedi ei seilio ar adolygiad ysgafn a dilynir hyn yn 2024 gan adolygiad mwy cynhwysfawr gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag amcanestyniadau poblogaeth a data arall wedi ei seilio ar Gyfrifiad 2021, nad yw ar gael eto. Rydym hefyd yn datblygu strategaeth gomisiynu ranbarthol ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn a fydd yn nodi'r blaenoriaethau rhanbarthol ac yn helpu i hysbysu'r diweddariad nesaf ar Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol ar gyfer Gogledd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023 sy'n nodi golwg 10 mlynedd o anghenion buddsoddiad cyfalaf isadeiledd cymunedol i ddarparu gofal cymdeithasol a gofal iechyd cynradd a chymunedol, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r anghenion a nodir yn ein Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

# Crynodeb o flaenoriaethau rhanbarthol

Roedd yr adroddiad cyntaf yn nodi gofal cartref (gofal yng nghartrefi'r bobl eu hunain) fel marchnad o flaenoriaeth, gan nad yw darparwyr sector preifat presennol yn gallu bodloni'r galw o ganlyniad i heriau o ran staffio. Themâu allweddol eraill oedd:

- Recriwtio staff. Mae'r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol iawn ac mae angen i gyfraddau tâl cystadleuol a buddion cyflogaeth gael eu cynnig er mwyn denu pobl.
- Prosiect recriwtio Gofal Cartref Integredig rhwng awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd a datblygu rolau traws-sefydliadol integredig a llwybrau gyrfa.
- Amodau a thelerau. Mae angen i'r rhain adlewyrchu a bod yn deilwng o'r rôl gofal cymdeithasol, a'i phwysigrwydd yn y system iechyd a gofal yn ogystal ag adlewyrchu fod y rhain yn rolau gyda sgiliau.
- Mae'r broses o gadw staff yn wael o ganlyniad i'r telerau a'r amodau gwael yn y sector gofal cymdeithasol. Mae cost tanwydd a'r argyfwng costau byw nawr i'w deimlo yn y sector lle mae darparwyr yn gweld mwy o staff yn profi tlodi yn y gwaith.
- Mae staff hefyd yn gadael y sector o ganlyniad i amodau gwaith heriol a diffyg parch ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud, a'r lefelau o gyfrifoldeb sydd ynghlwm â'r gwaith. Mae staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon a'u bod yn cael eu gorweithio.
- Nid yw staff sy'n newydd i'r sector yn aros yn y sector yn yr hirdymor gan eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu llethu gan ddwyster y swyddi, yn arbennig y rhai hynny sy'n cefnogi pobl gydag anghenion cymhleth ac ymddygiadau sy'n herio staff. Mae angen i ddarparwyr a chomisiynwyr gefnogi staff yn well i fodloni'r heriau o weithio mewn gofal cymdeithasol.
- Mae rhaglenni trawsnewid gwasanaeth yn flaenoriaeth, ac fe ddylent sbarduno'r ffocws ar alluogi hyblygrwydd mewn defnyddio oriau gofal a gomisiynir, lle gellir ymddiried yn y darparwyr i blygu'r pecyn o oriau gofal mewn partneriaeth â'r unigolyn y gofalir amdano. Tra'n gwerthfawrogi cyfyngiadau i bawb o ran y gyllideb, byddai'r hyblygrwydd yn gwella ansawdd ac yn dod ag arbedion o ran costau yn nhermau cyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio fwy ar yr unigolyn a lleihau costau gweinyddol.
- Nodwyd datblygu gwir waith partneriaeth rhwng comisiynwyr a darparwyr fel ffocws allweddol.
- Datblygu partneriaethau gyda darparwyr cartrefi gofal i ddarparu gofal preswyl lefel isel / gwasanaethau seibiant i leddfu'r pwysau ar ddarpariaethau gofal cartref.
- Datblygu cyfleoedd mewn meicro gomisiynu a thaliadau uniongyrchol fel dewis amgen i'r model gofal cartref traddodiadol lle bo'n briodol.

- Cynyddu cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl i leihau'r pwysau ar wasanaethau gofal cartref ac edrych ar ddatrysiadau a arweinir gan y gofalwr fel cynnydd mewn seibiant i ofalwyr (ac amrywiaeth gwell ohonynt).
- Cynyddu argaeledd lleoliadau arbenigol mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn, oedolion gydag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu a phobl gyda dementia.
- Cynyddu argaeledd llety brys a llety tymor hirach ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth gan gynnwys iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anghenion ymddygiadol emosiynol.Beth sydd wedi newid?

# Recriwtio a chadw staff

Mae recriwtio a chadw staff yn parhau yn her barhaus i Ogledd Cymru ar draws y sector. Mae pob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r sector gofal fel dewis o yrfa, ac mae rhai wedi creu rolau recriwtio pwrpasol ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn ceisio annog pobl i ymuno â'r sector.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am raglenni rhanbarthol

Mae rhaglen Blas ar Ofal Gogledd Cymru, sydd wedi ei hariannu hyd at ddiwedd Mawrth 2024, yn rhoi cyfle i'r bobl sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i gael profiad ymarferol o weithio yn y sector gofal drwy hyfforddiant a lleoliad 4 wythnos. Mae'r rhaglen wedi derbyn adborth gwych ac mae 12 o bobl a ymgymrodd â lleoliad gwaith nawr wedi dod o hyd i waith o fewn y sector o ganlyniad.

Mae'r ymgyrch Gofalwn yn parhau i hyrwyddo'r sector gofal drwy Ogledd Cymru, gan weithio'n agos gydag ysgolion lleol a cholegau ac mae wedi sefydlu rhaglen llysgennad rhanbarthol. Mae tîm Gogledd Cymru'n gweithio'n agos gyda'r tîm Gofalwn cenedlaethol ac maent yn datblygu brand Gofalwn ar gyfer Gogledd Cymru i helpu i ddarparu gwybodaeth gyfredol ynglŷn â chyfleoedd am swyddi a chyfleoedd hyfforddi ar hyd a lled y rhanbarth. Fe fydd hyn yn ein galluogi ni i gasglu data meintiol ynglŷn ag effaith mentrau hyrwyddo.

Mae Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn egluro sut dylai telerau ac amodau arfer da ymddangos ar gyfer y rhai hynny sy'n darparu gofal cymdeithasol a datblygu fframwaith wobrwyo a chydnabyddiaeth cysylltiedig.  Bydd partneriaid Gogledd Cymru yn gallu bwydo i'r darn cenedlaethol hwn o waith a helpu i'w siapio.

## Gwynedd

Creodd Gwynedd rôl Marchnata a Datblygu bwrpasol i ganolbwyntio ar recriwtio Gofal Cymdeithasol ac ymhlith yr hyn a gyflawnwyd mae'r isod:

- Ymgyrch sylweddol ar y cyfryngau yn gweithio ar newid canfyddiadau yn ymwneud â gweithio mewn gofal (a'i fod fel dewis o ran gyrfa yn hytrach na swydd)
- Symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer swyddi o fewn y sector gofal
- Cynllun cludiant - cynnig gwersi gyrru am ddim, y defnydd o geir trydan a rennir a beiciau trydan i staff
- Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc o oed ysgol/coleg
- Presenoldeb sylweddol mewn digwyddiadau fel Eisteddfod Genedlaethol 2023 i hyrwyddo gyrfaoedd o fewn y sector gofal.

## Conwy

Creodd Conwy rôl Mentor Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion i'w cefnogi i gyflogaeth Gofal Cymdeithasol sy'n cynnwys:

- Cyngor a chanllawiau ar ysgrifennu CV, chwilio am swyddi, cwblhau ceisiadau, paratoi ar gyfer cyfweliad, cefnogaeth 'yn y gwaith'
- Cefnogi unigolion i ymgymryd â 'sesiynau blasu' mewn lleoliadau gofal
- Cefnogi unigolion i gael mynediad at hyfforddiant cyn gyflogaeth
- Hwyluso rhaglenni profiad gwaith
- Adnabod a helpu i oresgyn rhwystrau amrywiol i gyflogaeth.

Mae 29 o bobl wedi sicrhau swyddi o fewn y sector ac wedi cefnogi 3 rhaglen wirfoddol, wedi cyflwyno pobl i'r cwrs Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol am ddim ar-lein gydag 11 yn cwblhau'n llwyddiannus.

## Sir Ddinbych

Mae gan Sir Ddinbych arbenigwr AD pwrpasol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac mae wedi gweithredu rhaglen dreigl i recriwtio, gwahanol rolau o ran swyddi (i adlewyrchu cymhlethdod rhai pecynnau gofal ac i alluogi datblygiad o ran gyrfa o ofalwr i reolwr), gwersi gyrru i ofalwyr, e-gerbydau ac e-feiciau.  Mae Sir Ddinbych yn gweithio yn darparu lleoliadau Dechrau Gweithio o fewn y sector gofal. Roedd ymgyrch

farchnata yn cynnwys cerbydau gyda logo a siacedi gyda'r brand er mwyn i ofalwyr eu gwisgo sydd i gyd yn cynnwys y neges "gwnewch i bobl wenu".

### Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint cafodd Creed Communications Ltd eu comisiynu i ymgymryd ag ymgyrch farchnata 3 mis ar gyfer recriwtio i waith cymdeithasol a therapi galwedigaethol rhwng Mai ac Awst 2023. Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymgyrch fe aeth Creed ati i gyfweld â budd-ddeiliaid allweddol i ddeall pwyntiau gwerthu unigryw Sir y Fflint fel cyflogwr ac i ffurfio'r fframwaith negeseuon. Dewisodd y Cyngor neges recriwtio "chwa o awyr iach" fel canolbwynt.

O safbwynt yr asiantaethau recriwtio roedd hyn yn llwyddiannus. Fe gafodd yr hysbysebion eu hunain eu gweld 550,000 gwaith ar draws platfformau amrywiol a chliciwyd arnynt 7,000 o weithiau. Roedd tua 2,000 wedyn wedi clicio i chwilio am swyddi ar safle swyddi mewnol Sir y Fflint.

### Wrecsam

Yn dilyn y pandemig fe gynyddodd y nifer o bobl a oedd yn aros am ofal yn Wrecsam ac roedd hyd cyfnod aros pob unigolyn yn sylweddol hirach nag y bu cyn y pandemig.  Edrychodd Wrecsam ar recriwtio o dramor fel ffordd o recriwtio i'r sector a gweithiodd gyda nifer bychan o ddarparwyr a oedd wedi defnyddio Fisa Gweithwyr Tramor Haen 2 Swyddfa Gartref y DU, a gynyddodd y capasiti yn y farchnad i ddarparu gwasanaethau'n gyflymach. Hefyd fe wnaethant gynorthwyo i integreiddio gweithwyr o dramor gan gynnwys gyda chyfeiriadau diwylliannol, daearyddiaeth leol a chludiant ac amodau gwaith cyffredinol. Tra bod hyn wedi bod yn gweithio'n dda yn Wrecsam, mae angen i waith barhau i recriwtio gweithwyr gofal o'r ardal leol, sy'n her fel mewn mannau eraill yn y DU.

## Cydnabod pwysigrwydd y sector gofal o ran cadw pobl yn iach yn eu cartrefi eu hunain.

Mae yna flaenoriaeth o hyd ar gyfer y rhanbarth ac mae yna ddealltwriaeth a rennir fod angen i ni ganolbwyntio ar gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, mae yna heriau o ran hyn gyda phwysau cynyddol ar y farchnad gofal cartref. Mae rhai ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru yn ei chael yn anodd i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i argaeledd gofalwyr sy'n gallu teithio, daearyddiaeth wledig a chysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael. Mae cadw pobl yn

iach yn eu cartrefi eu hunain yn dod yn fwy anodd wrth i nifer y bobl gydag anghenion mwy cymhleth gynyddu, a fydd yn parhau i fod yn her.

## Gwynedd

Fe ddechreuodd Gwynedd drawsnewid i fodel gofal cartref newydd yn nechrau Ebrill 2022 er mwyn darparu mwy o sefydlogrwydd ar draws y sir, gyda darparwyr yn cael eu neilltuo i ardaloedd daearyddol penodol yn hytrach na bod ar draws y sir. Dylai hyn gynorthwyo recriwtio/cadw staff ac effeithlonrwydd cyffredinol drwy leihau teithio a biwrocratiaeth.

Mae gweithwyr cymdeithasol nawr yn gweithio'n agosach gyda darparwyr i oresgyn unrhyw broblemau. Yn flaenorol roedd darparwyr wedi bod yn gyfyngedig i 'amser a thasgau' ond nawr mae ganddynt hyblygrwydd i weithio o amgylch yr hyn mae'r unigolyn a gefnogir ei eisiau. Ymhlith yr heriau mae defnyddwyr gwasanaeth nad ydynt eisiau newid darparwr a oedd yn golygu fod rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol, darparwr, iechyd a rheolwr prosiect weithio gyda'i gilydd i ddatrys materion neu bryderon cyn y trosglwyddiad i'r trefniadau gwaith newydd. Cyn hynny byddai'r Gweithiwr Cymdeithasol wedi trosglwyddo'r pecyn yn ôl i'r darparwr yr oedd y defnyddiwr gwasanaeth ei eisiau.

## Conwy

Mae Conwy'n gwella'r ffordd maent yn comisiynu gofal cartref. Gan symud oddi wrth 'Amser a Thasgau' tuag at weithio mewn dull sy'n 'Canolbwyntio ar Ganlyniadau Lles a Phobl'.

Mae'r manteision o'r newid hwn mewn gwasanaeth yn cynnwys gwella'r modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'r canlyniadau a galluogi'r unigolion i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy. Bydd hefyd yn cefnogi rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel ac ar amser a chynyddu'r gefnogaeth i ofalwyr unigolion sydd eisoes yn derbyn gofal yn y cartref.

Bydd y newid hwn yn cynyddu'r sefydlogrwydd yn y farchnad ac yn cefnogi darparwyr gyda recriwtio a chadw staff gyda'r ymrwymiad i brynu oriau bloc ymlaen llaw gyda thâl a gynlluniwyd. Bydd hyn hefyd yn sicrhau fod y broses frocera'n parhau i fod mor effeithlon â phosibl er mwyn galluogi i Dimau Adnoddau Cymunedol a darparwyr i gydweithio'n fwy integredig.

## Sir Ddinbych

Fe ailfodelodd Sir Ddinbych ddarpariaeth fewnol rai blynyddoedd yn ôl i dri chanolbwynt gofal cartref amlddisgyblaethol wedi eu seilio o amgylch tai gofal ychwanegol. Mae'r swyddi gofal sydd wedi eu lleoli yn y canolbwynt yn amrywio o ofal a chefnogaeth lefel mynediad i ofal a chefnogaeth uwch gyda llwybr datblygiad clir. Mae swyddi newydd yn adlewyrchu anghenion a chymhlethdodau sy'n newid a dylai dinasyddion fod yn gallu symud drwy'r continwwm o gefnogaeth sydd ar gael wrth i'w hanghenion newid.  Fe ellir darparu gofal cartref i'r gymuned leol (o fewn pellter cerdded) o'r adeiladau gofal ychwanegol. Mae yna gynlluniau ar gyfer canolbwynt ychwanegol yn Ne Sir Ddinbych, yn gweithredu o Gorwen.

Bydd cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal yn unol â'r rhaglen 'Ailgydbwyso Gofal Cymdeithasol'.

Mae Sir Ddinbych hefyd yn gweithio gyda darparwyr meicro lleol i lenwi bylchau mewn gofal cartref lle bo'n briodol. Mae diffyg staff i gyflenwi yn broblem benodol yn ne gwledig y sir sydd yn anffodus yn arwain at rai lleoliadau preswyl dros dro ac oedi o ran rhyddhau o'r ysbyty. Mae ymrwymiad yn parhau i gynyddu darpariaeth yn ne Sir Ddinbych, un ai drwy ehangu darpariaeth fewnol neu drwy ystyried dulliau amgen o gynyddu'r sector annibynnol.

Mae Sir Ddinbych yn parhau i wreiddio'r ethos o Symud gydag Urddas i'r holl wasanaethau gyda staff yn asesu ar gyfer neu'n darparu gofal o'r maint cywir. Maent yn adolygu pecynnau gofal gyda dau ofalwr a chefnogi staff gofal i ystyried gofal gydag un gofalwr lle bo'n briodol a/neu weithio'n uniongyrchol gyda'r dinesydd/teulu ac ymarferydd arweiniol, gyda hyfforddiant perthnasol fel y caniateir gan gyllid. Maent yn gweithio gyda Phennaeth Therapi Galwedigaethol yn y bwrdd iechyd i sicrhau mai gofal gydag un gofalwr yw'r sefyllfa ddiofyn wrth ryddhau o'r ysbyty a'i fod yn cael ei gynnwys yn y polisi rhyddhau lle bo'n briodol.

## Sir y Fflint

Mae Sir y Fflint wedi dechrau cyflwyno contractau bloc ar gyfer gofal cartref i ddenu darparwyr i ardaloedd lle mae cyrchu gofal cartref yn anodd. Maent hefyd nawr yn comisiynu'n uniongyrchol gyda sefydliad Meicro-Ofal sydd wedi cwblhau fframwaith ansawdd Sir y Fflint.

### Wrecsam

Mae 91% o wasanaethau yn Wrecsam yn cael eu darparu gan ddarparwyr dan gontract allanol ac mae eu darpariaeth eu hunain yn canolbwyntio ar wasanaethau ailalluogi tymor byr tra bod y mwyafrif o wasanaethau parhaus a hirdymor yn cael eu comisiynu gan y farchnad allanol. O'r farchnad allanol, mae 86% yn cynnwys darparwyr lleol sydd wedi datblygu'n lleol ac mae 14% gyda darparwr cenedlaethol sydd â lleoliad yn lleol. Mae'r Cyngor yn defnyddio Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru i ddefnyddio pecynnau o gefnogaeth yn ôl y gofyn ond mae hefyd wedi mynd i gontractau yn y fan a'r lle gyda rhai sy'n newydd i'r farchnad lle mae'r darparwyr Fframwaith hynny wedi methu â darparu o ganlyniad i lefelau staffio.

Mae yna heriau penodol mewn darparu gwasanaethau ar hyd a lled de'r fwrdeistref ac mae'r galw yn gyffredinol yn gyson ac yn uwch na'r nifer o ofalwyr sydd ar gael, sy'n golygu fod pobl yn gyffredinol yn aros yn hirach nac mewn ardaloedd eraill yn y fwrdeistref. Yn ne'r fwrdeistref, mae'r galw yn amrywio ond mae daearyddiaeth wledig yr ardal yn golygu nad yw'r cyflenwad o ofalwyr ar gael yn hawdd a gall yr amser teithio rhwng tai wneud darpariaeth y gwasanaeth yn llai hyfyw yn ariannol nac ardaloedd eraill.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r nifer o bobl sy'n derbyn gofal yn y cartref wedi cynyddu o 7% tra bod y nifer o oriau a ddarparwyd wedi cynyddu o tua 15% sy'n dangos fod mwy o bobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau ar bwynt lle mae eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn uwch.

## Gweithio gyda chartrefi gofal i ddarparu gofal preswyl lefel isel a seibiant i ofalwyr

Mae darpariaeth cartrefi gofal o ofal preswyl lefel isel a seibiant wedi parhau i fod yn heriol o ganlyniad i'r galw uchel a'r angen cynyddol am ofal preswyl. Ar hyn o bryd dim ond rhai cartrefi yng Ngogledd Cymru sy'n cynnig hyn ac mae angen i ni weithio'n agosach gyda chartrefi gofal i ddarparu hyn yn ehangach.

Mae gan Sir Ddinbych ychydig o ddarpariaeth ar gyfer arosiadau tymor byr sy'n canolbwyntio ar ailalluogi o fewn cartrefi gofal mewnol, tai gwarchod sydd wedi eu haddasu'n llawn a llety gofal ychwanegol yn ogystal â fflat gofalwyr sydd ar gael yn Rhuthun.

Caiff cyfleoedd seibiant i ofalwyr eu trafod ym mhob sgwrs Beth sy'n Bwysig gan gynnwys amlygu argaeledd meicro-ddarparwyr ac adnoddau eraill sydd ar gael yn y cymunedau lleol. Mae hyn hefyd yn caniatáu mwy o ddewis a rheolaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl a dinasyddion.

## Meicro-gomisiynu a thaliadau uniongyrchol

Mae gwaith i adnabod a hyfforddi meicro-ddarparwyr newydd yn parhau drwy'r rhanbarth. Mae nifer o'r Cynghorau yn gweithio gyda 'Chatalyddion Cymunedol', cwmni sy'n cefnogi pobl a chymunedau i ddechrau busnesau bach neu fentrau cymunedol sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth yn eu hardaloedd lleol. Mae hyn yn ychwanegol at ddarpariaeth gofal cartref traddodiadol, yn hytrach na'i fod yn ei disodli. Mae rhai pobl yn defnyddio taliadau uniongyrchol ac mae eraill yn talu'n breifat am feicro-ofal.

### Gwynedd

Mae Gwynedd wedi gweithio gyda 'Chatalyddion Cymunedol' dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae tri unigolyn nawr yn hysbysebu eu gwasanaethau ar y wefan 'Small Good Stuff' . Bydd y gwaith hwn yn parhau.

Mae Gwynedd hefyd yn ail-fodelu eu gwasanaeth taliadau uniongyrchol, ac fe ddeuir â'r gwasanaeth cefnogaeth taliadau uniongyrchol yn fewnol. Dros y misoedd nesaf, bydd y tîm taliadau uniongyrchol yn datblygu elfennau fel y gofrestr Cynorthwywyr Personol a Gwefan taliadau uniongyrchol.

### Conwy

Mae adran fewnol newydd wedi ei chreu ac maent yn canolbwyntio ar godi proffil Taliadau Uniongyrchol. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy ddatblygu tudalennau gwe, y cyfryngau cymdeithasol, sgyrsiau cymunedol a sicrhau bod staff y rheng flaen yn meddu ar y sgiliau ac yn hyderus yn trafod manteision Taliadau Uniongyrchol gyda dinasyddion.  Mae Sefydliad Rowan yn gweithredu gwasanaeth cefnogi annibynnol rhad ac am ddim ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae ganddynt Ymgynghorwyr Taliadau Uniongyrchol a all helpu defnyddwyr gwasanaeth i benderfynu p'run ai i ymgeisio am Daliadau Uniongyrchol ai peidio.

## Sir Ddinbych

Yn Sir Ddinbych mae meicro-ddarparwyr yn cefnogi tua 200 o ddinasyddion, ac mae tua 50 ohonynt yn defnyddio taliadau uniongyrchol. Mae tua 30 o bobl yn holi ynglŷn â hyfforddiant i ddod/sefydlu fel meicro-ddarparwr bob chwarter. Mae'r capasiti sydd ar gael gan feicro-ddarparwyr wedi lleihau yn gyffredinol sy'n awgrymu fod mwy yn defnyddio'r darparwyr yn Sir Ddinbych.

## Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint, rhwng Ebrill 2023 a Hydref 2023, fe sefydlwyd 12 meicro-ofalwr newydd, gan roi cyfanswm o 38 o feicro-ofalwyr wedi eu rhannu'n gyfartal rhwng taliadau uniongyrchol a chefnogaeth wedi ei brynu'n breifat. Fe gafodd Sir y Fflint 42 o ymholiadau gan ddarpar feicro-ofalwyr dros yr un cyfnod, sy'n dangos fod diddordeb yn cynyddu - roedd yna 49 o ymholiadau rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Mae yna 12 o bobl ychwanegol yn 'weithredol' yn sefydlu eu busnes meicro-ofal.

Fe greodd Sir y Fflint borth gwybodaeth meicro-ofal ar wefan y Cyngor, a fydd yn symud o'i leoliad presennol ar Gofal@SiryFflint a datblygodd borth byw wedi'i ddatblygu gyda meicro-ofalwyr lle gallant uwchlwytho gwybodaeth, a fydd yn disodli'r rhestr fasnachu meicro-ofal bresennol.

Fe gefnogodd Sir y Fflint ddarparwr meicro-ofal i sefydlu fel gwasanaeth dydd i bobl gyda dementia yn y gymuned, yn gweithredu o'r lleoliadau ar wahân i ddarparu ar gyfer y galw mewn gwahanol ardaloedd. Mae yna 14 o bobl nawr yn mynychu'r gwasanaeth hwn, sy'n darparu gwasanaethau seibiant gwerthfawr ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pobl gyda dementia. Hefyd fe gomisiynodd y Cyngor ofod yn uniongyrchol yn y gwasanaeth ar gyfer un unigolyn fel dewis amgen i ofal cartref ar gyfer y dyddiau penodol hynny. Mae'r adborth wedi bod yn arbennig o gadarnhaol.

## Wrecsam

Dechreuodd Cyngor Wrecsam weithio gyda Chatalyddion Cymunedol yn 2020 a datblygodd a chynhaliodd nifer gynyddol o Feicrofentrau yn llwyddiannus, yn arbennig yn ardaloedd mwy gwledig y De Orllewin a lle mae gan bobl becynnau llai o ofal.

Cafodd y gwasanaeth Catalyddion Cymunedol yn Wrecsam ei werthuso gan ganolbwynt Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2022, a ddarganfu fod cyfanswm o 53 o feicrofentrau wedi eu sefydlu rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2022 gyda chyfanswm o 61 o swyddi wedi eu creu, gan ddarparu gofal i 248 o unigolion. Darganfu'r gwerthusiad fod safbwyntiau ynglŷn â'r gofal a ddarparwyd yn nodi ei fod yr un fath neu'n well na modelau eraill. Isod mae un o'r straeon a gasglwyd o'r gwerthusiad.

**Stori Mr B - Rhan 1: Help llaw**

"Mae Mr B yn 83 oed a hyd yn ddiweddar roedd wedi bod yn byw'n annibynnol heb gefnogaeth. Mae'n hoffi tyfu llysiau yn yr ardd, mae ei drefn wythnosol yn cynnwys gyrru i'r siopau ac ymweld â ffrind.

Ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar nid oedd Mr B yn gallu coginio na gwneud gwaith tŷ ac roedd angen cymorth gyda'i feddyginiaeth. Hefyd fe wnes i ei helpu i gynnal a chadw ei ardd yn ystod y cyfnod hwn.

Wrth i'w iechyd wella, cyfaddefodd Mr B wrthyf ei fod wedi syrthio ac anafu ei wyneb y tro diwethaf iddo fynd i siopa. Roedd yn poeni y byddai hyn yn digwydd eto. Cynigais y gallem ni fynd i siopa gyda'n gilydd, ac fe wnaethom ni hynny sawl tro. I ddechrau roeddwn yn ei ddanfon yn y car ac roedd yn ansefydlog ar ei draed, ond dywedodd ei fod yn teimlo'n fwy hyderus gyda fi yno, ac roedd yn gafael ynof i ddechrau. Gyda help llaw roedd yn gallu dod i arfer gyda bod allan eto a chafodd hyder i fynd allan ar ei ben ei hun ac mae'n gweithio tuag at ddychwelyd i'w drefn flaenorol.

# Cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl

Mae yna tua 67,000 o unigolion 5 oed a hŷn yn darparu gofal di-dâl yng Ngogledd Cymru yn ôl cyfrifiad 2021.

Er mawr syndod, mae cyfanswm cyffredinol y gofalwyr di-dâl wedi gostwng ers 2011 ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu fod sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys newidiadau yn natur gofalu yn ystod y pandemig a lefelau uchel o farwolaethau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae hefyd yn awgrymu y gallai'r newid o ran saernïo'r cwestiwn fod wedi gwneud gwahaniaeth.

Tra bod cwestiwn Cyfrifiad 2011 yn crybwyll darparu gofal di-dâl ar gyfer teulu, ffrindiau neu gymdogion, roedd cwestiwn 2021 yn cyfeirio at ofalu am unrhyw un. Byddai hyn wedi cael effaith gan nad yw pobl yn aml yn adnabod eu hunain fel gofalwyr di-dâl.

**Ffigur 1: Y nifer o ofalwyr di-dâl (5 oed neu hŷn)**

| | Cyfanswm nifer y gofalwyr di-dâl | Gofalwyr di-dâl fel canran o bawb sy'n 5 oed neu'n hŷn |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 6,745 | 10% |
| Gwynedd | 9,990 | 9% |
| Conwy | 11,640 | 11% |
| Sir Ddinbych | 10,174 | 11% |
| Sir y Fflint | 15,262 | 10% |
| Wrecsam | 12,858 | 10% |
| Gogledd Cymru | 66,665 | 10% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, RM113 - Darpariaeth gofal di-dâl yn ôl oed.

Fodd bynnag mae yna gynnydd amlwg yn y nifer a chyfran y bobl sy'n darparu cyfanswm sylweddol o ofal di-dâl ar draws Gogledd Cymru. Mae dros hanner y bobl sy'n darparu gofal di-dâl nawr yn darparu dros 20 awr yr wythnos, sy'n gynnydd o 42% yn 2011 i 55% yn 2021 - cyfanswm o tua 36,600 o bobl yn 2021 o'i gymharu â tua 32,750 yn 2011**.**

**Ffigur 2: Gofal di-dâl yn ôl y cyfanswm o oriau bob wythnos, 2011 a 2022**

| Nifer yr oriau o ofal di-dâl bob wythnos | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| 1 i 19 awr/yr wythnos | 58% | 45% |
| 20 i 49 awr/yr wythnos | 14% | 20% |
| 50 neu fwy o oriau/yr wythnos | 27% | 35% |
| Mwy nag 20 awr/yr wythnos | 42% | 55% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Mae cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl wedi cynyddu ar draws yr awdurdodau lleol gyda nifer o fentrau newydd yn ychwanegol at gynnal trefniadau presennol.

## Ynys Môn

- Mae Grŵp Strategaeth Gofalwyr Di-dâl ar Ynys Môn yn cyfarfod yn chwarterol gyda chynrychiolwyr o faes iechyd, y trydydd sector ac awdurdodau lleol. Mae'r grŵp yn darparu diwrnodau gwybodaeth a digwyddiadau, gan gynnwys pedwar digwyddiad bob blwyddyn mewn canolfannau hamdden a chanolfannau cymunedol gyda gweithgareddau rhad ac am ddim a gwybodaeth. Rhoddir 'llyfryn croeso' i bob gofalwr newydd ac mae gwybodaeth ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled.
- Mae Swyddog Budd-daliadau dynodedig yn darparu gwybodaeth a chymorth gyda hawliau drwy gyfeirio a chwblhau ceisiadau am fudd-daliadau a grantiau gan gynnwys grantiau costau byw.
- Hwyluso'r gronfa Seibiannau Byr, sy'n hanfodol ar gyfer lles gofalwyr, sydd ar hyn o bryd yn cefnogi: Cynnal Gofalwyr, Mencap Môn, Gweithredu dros Blant ac Adferiad.
- Mae'r adran hyfforddi yn cynnig cyrsiau a sesiynau gwybodaeth yn rhad ac am ddim i sefydliadau'r trydydd sector a gofalwyr di-dâl.
- Mae cyllid Grant Lles Gofalwyr Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol yn darparu seibiannau byr i ofalwyr di-dâl yn eu rôl ofalu.
- Darparu seibiannau gwerthfawr i ofalwyr di-dâl drwy gronfa 'AMSER' Llywodraeth Cymru.
- Adnabod gofalwyr di-dâl o fewn ein partneriaid / sefydliadau statudol e.e. yn ystod wythnos gofalwyr, yn yr holl ysbytai a thrwy sesiwn alw heibio fewnol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer staff yr awdurdod lleol. Mae gan bob ysgol uwchradd unigolyn Arweiniol Gofalwyr Ifanc ac mae gan y colegau lleol Swyddog Lles sy'n gyfrifol am sicrhau fod anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu diwallu (yn emosiynol ac yn addysgol).

Gwybodaeth a rannwyd drwy rwydweithiau'r Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook ac Instagram)

- Cerdyn adnabod ac Ap Gofalwyr Ifanc – www.aidicymru AiDi | Ap arloesol a gwasanaeth ar gyfer gofalwyr ifanc

- Cefnogaeth eiriolaeth anffurfiol yn yr ysgolion drwy ein gwasanaeth 'galw heibio' ac wrth ymdrin â chyfarfodydd proffesiynol/aml asiantaeth eraill.
- Cefnogi teuluoedd gyda cheisiadau tai/trosglwyddiadau drwy ddarparu llythyrau o gefnogaeth i gryfhau eu hachos.
- Gwneud gofalwyr ifanc a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael ac, os oes angen, eu cefnogi gyda cheisiadau.
- Parent Talk Cymru Gweithredu dros Blant - gwasanaeth cefnogi rhianta ar gyfer rhieni. Parent Talk - Cefnogaeth i Rieni gan Gweithredu dros Blant
- Gwasanaeth Sidekick Gweithredu dros Blant. Gwasanaeth llinell gymorth cyfrinachol ar gyfer gofalwyr ifanc 13 i 18 oed yn y DU. Sidekick - Sidekick gan Gweithredu dros Blant.

## Gwynedd

- Wedi lansio gwefan, www.aidi.cymru i'w gwneud yn haws i ofalwyr ifanc ddod o hyd i wybodaeth a hunan-gyfeirio eu hunain am gefnogaeth.
- Mae swyddog y gofalwr ifanc yn codi ymwybyddiaeth drwy gyflwyniadau ac adnoddau addysgol ynglŷn â sut i adnabod, cefnogi a chyfeirio gofalwyr ifanc cuddiedig. Ar gyfer ysgolion uwchradd rydym wedi creu dyddlyfr meddwlgarwch, dogfen a llyfr o weithgareddau ac ar gyfer ysgolion cynradd, animeiddiad byr a llyfr lliwio (gyda gwybodaeth ychwanegol ar gyfer rhieni).
- Ffurfio uwch grŵp dementia i gyd-gynhyrchu cynllun strategol dementia a llywio darpariaeth, gyda gofalwyr di-dâl yn greiddiol i ddatblygiadau.
- Mae Dementia Actif (Dementia Actif Gwynedd) yn darparu cyfleoedd o ran gweithgaredd corfforol i grwpiau i gefnogi a hybu ansawdd bywyd ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, cynghrair Boccia, gweithgareddau ar-lein a chlybiau amrywiol fel garddio.
- Cynnig gweithgareddau a chyfleoedd i feithrin sgiliau i oedolion ifanc tua'r oed lle maent yn pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. Sefydlu darpariaeth grŵp newydd gan ddefnyddio'r grant gofalwyr a gweithio'n agos gyda Derwen (Tîm Integredig y Cyngor ar gyfer Plant Anabl (Tîm Integredig ar gyfer Plant Anabl (llyw.cymru)), Addysg ac asiantaethau partner eraill, i lenwi bwlch mewn gwasanaeth ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y gofrestr anabledd dysgu ond sy'n parhau yn ddiamddiffyn ac weithiau'n ynysig pan fyddant yn gadael yr ysgol.

## Sir y Fflint

- Estyn allan at ofalwyr nad ydynt wedi eu hadnabod, a hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol a rhannu ystod eang o wybodaeth i apelio at gynifer o bobl ac amgylchiadau â phosibl. Mae hyn wedi helpu i adnabod rhai gofalwyr yn gynharach yn hytrach nag ar bwynt argyfwng, yn arbennig gofalwyr gwrywaidd.
- Gweithio gydag addysg i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc mewn ysgolion gan gynnwys rhaglen o hyfforddiant i sicrhau fod athrawon yn ymwybodol o ofalwyr ifanc, sut i'w hadnabod, pa gefnogaeth allai fod ei hangen arnynt a sut i wneud atgyfeiriad ar gyfer rhagor o gefnogaeth.
- Hyrwyddo'r cynllun Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofalwyr a chyhoeddi gwybodaeth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, diweddaru prosesau a rhannu negeseuon atgoffa i sicrhau fod gofalwyr yn cael eu hystyried yn eu hasesiadau ar gyfer y rhai y gofalir amdanynt. Arweiniodd hyn at sgyrsiau gyda gofalwyr yn gynharach a chynnydd yn y nifer o asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu cwblhau gan dimau mewnol.
- Nid yw nifer y gofalwyr sy'n cael at seibiant traddodiadol wedi cynyddu i'r lefelau cyn y pandemig, ac felly fe ystyriwyd ffyrdd mwy creadigol o sicrhau fod gofalwyr yn cael eu cefnogi ac nad ydynt yn cyrraedd pwynt o argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd yn y defnydd o Daliadau Uniongyrchol ac archwilio dewisiadau arloesol gyda chynllun Amser (Rhaglen Amser 2023-25 - Ymddiriedolaeth y Gofalwyr) a chyllid seibiant gofalwyr drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF).
- Ail-greu grŵp gofalwyr mewnol Sir y Fflint ar gyfer gweithwyr a ddioddefodd yn ystod y pandemig, a gweithio ar draws portffolios i sicrhau fod gofalwyr yn cael eu hadnabod a'u cefnogi.

## Sir Ddinbych

- Grŵp Strategaeth Gofalwyr (fforwm wedi ei wneud o gynrychiolwyr o gefndir eang (Strategaeth Gofalwyr | Cyngor Sir Ddinbych)) yn cwrdd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a chydweithio i gryfhau gwybodaeth a chyngor, gan ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd.
- Dyfarnwyd contract newydd i Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (Cartref - Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru) yn dilyn ymarfer tendro llawn, yn cynnwys gofalwyr di-dâl o'r cychwyn. Cynhaliwyd cyfarfodydd â grwpiau ffocws lleol i drafod beth oedd yn gweithio'n dda, beth nad

oedd yn gweithio'n dda ac i gael gwybodaeth i helpu i nodi meysydd i'w gwella. Roedd hyn yn llywio ac yn dylanwadu ar fanyleb y gwasanaeth newydd, sy'n pwysleisio'r angen i archwilio ystod eang o egwyliau byr/dewisiadau o ran seibiant, i alluogi mwy o ddewis a rheolaeth i ofalwyr a'r unigolion maent yn gofalu amdanynt.

- Mae Gweithiwr Gofalwyr Iach yn parhau i wella a chynnal iechyd a lles drwy gynghori ar faterion fel codi a symud yn gorfforol, gofal cefn a chael at weithwyr proffesiynol i fynd i'r afael â materion yn ogystal ag ymdrin ag atgyfeiriadau argyfwng lle mae pecynnau gofalwyr yn methu neu lle nad ydynt ar gael neu lle gwrthwynebir cefnogaeth.
- Fe fu Aseswyr Gofal Sir Ddinbych yn cymryd rhan yn y Cyfarfod Ymgysylltu â'r Gymuned yn Ninbych fel rhan o'r Ymgyrch Wrando, sy'n ffurfio rhan o'r Ymgyrch Dementia ranbarthol.
- Cydweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth.
- Hyrwyddo'r cyfleoedd newydd sydd ar gael drwy Amser, Taliadau Uniongyrchol a chardiau rhagdaledig y gall gofalwyr di-dâl eu defnyddio ar gyfer egwyliau byr/seibiant. Cefnogi darparwyr lleol i ddatblygu cyfleoedd sy'n fwy personol.
- Comisiynu'r cynllun taleb Pontio'r Bwlch sydd wedi ennill gwobrau er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd i ofalwyr.
- Gweithio'n agos gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych) i ddosbarthu grantiau seibiant bach, sydd wedi gweithio'n hynod o dda. Sefydlu panel grantiau a chyflwynwyd gwobrau i ystod eang o sefydliadau sy'n cefnogi gofalwyr o bob oedran.
- Mae Sir Ddinbych yn Gweithio a Rhwydwaith Cyflogaeth Sir Ddinbych a'r tîm Contractau a Chomisiynu yn gweithio'n agos gyda thîm Datblygu'r Gweithle i sicrhau fod cyfleoedd hyfforddi yn cael eu hyrwyddo a'u datblygu i gefnogi gofalwyr yn eu rôl gofalu.

## Conwy

- Mae grŵp gofalwyr strategol yn goruchwylio ac yn cyfarwyddo datblygiad gwasanaethau gofalwyr, a gaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy gyda Chefnogwr Gofalwyr Conwy yn mynychu.
- Mae gan Dîm Gofalwyr mewnol Conwy swyddog gofalwyr ar ddyletswydd bob dydd gyda llwybrau atgyfeirio da i'r tîm gofalwyr mewnol ar draws gofal

cymdeithasol ac iechyd. Er mwyn adnabod gofalwyr mae'r Un Pwynt Mynediad yn chwarae rhan bwysig, fel y ganolfan ddementia newydd ym Mochdre.

- Mae'r ymgyrch wrando ranbarthol yng Nghonwy yn gweithio gyda chymunedau fel Llanfairfechan, gan gynnwys gofalwyr.
- Dathlwyd y cyfraniad gwerthfawr a wnaed gan ofalwyr yn ystod Wythnos y Gofalwyr gyda diwrnod gwybodaeth a thrwy hyrwyddo cysylltiadau ag adnoddau cymunedol.
- Cynyddu presenoldeb ar-lein a diweddaru tudalennau gwe gofalwyr yn rheolaidd gyda chynnwys fel dolenni baner yn arwain at hyfforddiant "Fy Amser i" Gofalwyr Cymru.

Mae gwasanaethau i ofalwyr yn cynnwys:

- Cefnogi 188 o ofalwyr gyda 437.5 awr yr wythnos o Wasanaeth Eistedd wythnosol (yn cynnwys gwasanaeth eistedd Croesffyrdd o dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth)
- 77 o bobl yn cael mynediad i wasanaethau dydd, sy'n darparu seibiant gwerthfawr i ofalwyr, gyda chyfanswm wedi ei gyfuno o 1200 o oriau yr wythnos (o 1/9/23)
- Mae Grant Seibiant i Ofalwyr 2023/24 wedi ei ddyrannu ar draws ystod o ddarparwyr gwasanaeth presennol yn dilyn cynigion gan ddarparwyr.
- Mae cyllid Amser yn darparu ymagwedd hyblyg iawn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran egwyliau byr.
- Llys Elian – mae 38 o unigolion wedi cael mynediad i seibiant, gan ddarparu seibiant gwerthfawr iawn i ofalwyr.
- Mae 300 o ddinasyddion yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, o'r rhain mae 48 yn ofalwyr sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol ar gyfer eu hanghenion eu hunain, y tu hwnt i'r hyn mae'r gwasanaethau cefnogi traddodiadol yn ei gynnig.

## Wrecsam

Mae gwaith i gefnogi gofalwyr di-dâl yn Wrecsam yn cynnwys y canlynol.

- Strategaeth gyfathrebu gofalwyr di-dâl wedi ei datblygu mewn partneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth a'r timau cyfathrebu. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut mae Wrecsam yn adnabod gofalwyr di-dâl a hyrwyddo'r cyfraniad gwerthfawr mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud i'n cymunedau.

- Gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i greu tudalen ar wefan y Cyngor ar gyfer gofalwyr di-dâl a gyda'r tîm cyfathrebu i gyhoeddi erthyglau'n ymwneud â gofalwyr di-dâl a lle gallant gael cyngor a chefnogaeth.
- Cynnig cyllid Pontio'r Bwlch drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru.
- Dod yn aelod o'r cynllun Cyflogwyr i Ofalwyr gyda Gofalwyr Cymru i helpu i gefnogi staff sy'n ofalwyr di-dâl gan gynnwys cynnig hyfforddiant ychwanegol i reolwyr.

# Cynyddu lleoliadau arbenigol mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn, oedolion gydag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu a phobl gyda dementia.

Mae gan Wynedd brinder cyffredinol o ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, mewn lleoliadau preswyl a nyrsio a phrinder o welyau nyrsio cyffredinol. Mae'r pwynt lle gall unigolyn fod angen cefnogaeth o fewn lleoliad cartref gofal wedi cynyddu dros y blynyddoedd o ganlyniad i ymagwedd y Cyngor i fuddsoddi mewn gofal cartref, i gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy. Mae hyn yn golygu fod y galw am leoliadau cartref gofal mwy cymhleth wedi cynyddu. Hefyd mae yna heriau wrth ddod o hyd i leoliadau gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl cymhleth.

Mae prosiect Penrhos, ym Mhenrhyn Llŷn, yn dod yn ei flaen, y bwriad cychwynnol oedd bodloni anghenion tai a gofal y preswylwyr presennol sy'n byw ar y safle a hefyd bodloni anghenion presennol pobl hŷn sy'n byw yn yr ardal a'u hanghenion yn y dyfodol, yn arbennig unigolion sydd angen gofal nyrsio a gofal dementia. Hefyd fe fydd yna gefnogaeth tai a gofal i unigolion ag anableddau dysgu. Ar hyn o bryd mae'r prosiect ar y cam i sicrhau cyllid ac mae caniatâd cynllunio wedi ei roi.

Yn Sir y Fflint mae caniatâd cynllunio ar gyfer cartref preswyl ychwanegol wedi ei gytuno, bydd hyn ar gyfer gwasanaethau preswyl a gwasanaethau ar gyfer Henoed Bregus eu Meddwl (dementia arbenigol). Mae lleoliadau nyrsio a rhai ar gyfer Henoed Bregus eu Meddwl yn her sylweddol. Mae cartrefi wedi cau fodd bynnag disgwylir y bydd gwasanaeth newydd yn agor yn Ionawr 2024 yn yr Wyddgrug.

## Cynyddu llety brys a thymor hwy i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth

Mae dwyster yr angen a phwysau ar wasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Mae achosion wedi bod lle nad yw rhai awdurdodau lleol wedi gallu cael lleoliad yn unman yn y DU ar gyfer unigolion o ganlyniad i gymhlethdod eu hanghenion a diffyg mewn cyflenwad. Mae'r angen diweddar i leoli 22 o Blant yn Ceisio Lloches (tua 16-18 mlwydd oed) yng Ngwynedd wedi cynyddu'r straen ar y gwasanaeth.

Mae Gwynedd wedi penderfynu mai dull y Cartrefi Grwpiau Bychan yw'r ffordd orau o fodloni anghenion ac mae'n edrych am safleoedd addas. Bydd y Cyngor yn ceisio cyllid o'r

Gronfa Tai â Gofal o £2 miliwn; mae bwriad i recriwtio a darparu o fewn y 15 mis nesaf pe byddent yn llwyddiannus.

Yng Nghonwy mae prosiect newydd wedi ei sefydlu 'Trawsnewid Lleoliadau Preswyl Lleol a Lleoliadau Mewnol i Blant a Phobl Ifanc'. Mae'r prosiect hwn yn edrych ar beth fyddai'r ffordd orau o ddod â mwy o wasanaethau yn ôl yn fewnol ar gyfer plant a phobl ifanc. Wrth i'r prosiect hwn fynd rhagddo mae yna 3 phrosiect adeiladu arall yn digwydd ar hyn o bryd.

Bwthyn y Ddôl - 6 lleoliad tymor byr (menter ar y cyd rhwng Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Bydd yr eiddo newydd hwn yn darparu llety ar gyfer 4 o blant yn bennaf ar gyfer asesu ac ymyrraeth deuluol. Bydd hefyd yn darparu llety ar gyfer 2 o blant mewn uned lai a fydd yn cael ei defnyddio mewn sefyllfaoedd brys neu achosion wedi'u cynllunio o ryddhau unigolion o'r ysbyty mewn achosion lle bydd y plentyn yn elwa o gefnogaeth arbenigol a strategaethau lleihau risg i'w galluogi i symud i ofal teulu neu ofal maeth. Mae disgwyl i'r adeilad newydd agor yn niwedd 2024/dechrau 2025.

Glan yr Afon newydd - lleoliad preswyl mewnol pwrpasol â 4 ystafell wely ar gyfer plant a phobl ifanc 6-18 oed (lleoliadau hirdymor, gyda chyfleoedd i ystyried camu i lawr, yn dibynnu ar ofal). Mae disgwyl i'r adeilad newydd agor yn niwedd 2024/dechrau 2025.

Sylva Gardens - eiddo preswyl sy'n cael ei adnewyddu a'i ymestyn i ddarparu fflatiau ar gyfer tri o blant gydag anableddau dysgu, sydd ar hyn o bryd mewn lleoliad y tu allan i'r sir.  Mae disgwyl iddo agor yng Ngorffennaf 2024.

Yn Sir y Fflint mae datblygiad y gwasanaeth mewnol ar gyfer plant ar y gweill gyda 3 o'r 5 cartref newydd wedi eu cofrestru'n llwyddiannus gydag AGC. Mae yna ddau gartref grŵp bychan, un sydd wedi bod yn cefnogi plant ers mis Ebrill 2022.  Gall y cartrefi hyn ddarparu ar gyfer hyd at ddau o blant sy'n frodyr/chwiorydd.  Ym mis Hydref 2022 cwblhawyd y gwaith o adnewyddu dau eiddo mawr arall sy'n gallu darparu ar gyfer hyd at 4 o blant ar unrhyw adeg, ac mae darpariaeth frys ynghlwm ag un o'r cartrefi.

## Cartrefi gofal yn cau

Y cartref gofal diwethaf i gau yng Ngwynedd oedd Cartref Gofal Preswyl Foelas yn Llanrug, a gaeodd yn Ebrill 2022, gan golli 13 o welyau. Fe effeithiodd hyn ar ein gallu i ddarparu gofal yn y rhanbarth ar ben heriau presennol fel recriwtio a gofalu am unigolion gydag anghenion gofal cymhleth. Yn ychwanegol mae'r

rhaglen waith gyfredol ar nifer o gartrefi gofal mewnol yn effeithio ar y nifer o welyau y gallwn eu cynnig, ac mae hyn o ganlyniad yn arwain at bobl yn gorfod aros yn yr ysbytai am gyfnod hwy ac unigolion yn parhau i wynebu risg o fewn y gymuned.

Yng Nghonwy mae dau gartref wedi cau ers dechrau 2023. Fe gaeodd cartref preswyl i Henoed Bregus eu Meddwl ym mis Chwefror gydag 16 o welyau'n cael eu colli ar ôl methu â chynnal y safonau cenedlaethol. Fe gaeodd cartref preswyl ar gyfer pobl o oed gweithio ym Medi gyda 5 o welyau'n cael eu colli gan nad oedd yr adeilad yn addas i'r diben mwyach.

Mae Sir Dinbych yn disgwyl i gartref gau erbyn diwedd Ebrill 2024 gan na fydd y brydles yn cael ei hadnewyddu. Bydd hyn yn arwain at golli 9 o welyau.

Yn Sir y Fflint fe gaeodd un cartref yn 2022, gan leihau capasiti o gyfanswm o 52 o welyau, yn cynnwys 42 o welyau nyrsio a 10 preswyl. Yn dilyn hyn fe gaeodd ail gartref yn 2023 gan leihau capasiti o gyfanswm o 54 o welyau, roedd hyn yn cynnwys 42 o welyau nyrsio a 12 preswyl.

Yn Wrecsam fe gaeodd un cartref ym Medi 2022 gyda 33 o welyau'n cael eu colli ar ôl i lai o breswylwyr fod yma am gyfnod sylweddol o amser o ganlyniad i lefelau

staffio. Fe gaeodd un cartref oedd wedi ei gofrestru ar gyfer nyrsio cyffredinol a phreswyl yn Chwefror 2023 gyda 39 o welyau'n cael eu colli ac roedd hyn o ganlyniad i resymau'n ymwneud â rheolaeth ariannol fewnol o fewn y cwmni cofrestredig.